# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Siambr Hywel - Tŷ Hywel**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 9 Gorffennaf 2025

Amser y cyfarfod: 13.30

# 293(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr Hywel, Tŷ Hywel ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**I ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Economi, Ynni a Chynllunio**

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar y cyhoeddiad y bydd 220 o swyddi yn cael eu dileu yng ngwaith cemegau Dow yn y Barri?

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 4 Datganiadau 90 eiliad

(5 munud)

## 5 Cynnig i nodi'r adroddiad blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Senedd ar gyfer 2024-25

(30 munud)

**NDM8952** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r Adroddiad Blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Senedd ar gyfer y cyfnod 2024-25, yn unol â pharagraff 8(8) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a osodwyd gerbron y Senedd ar 2 Gorffennaf 2025.

## 6 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad: Yr unfed adroddiad ar hugain i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

(15 munud)

**NDM8949** Hannah Blythyn (Delyn)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad— Yr Unfed Adroddiad ar Hugain i'r Chweched Senedd a osodwyd gerbron y Senedd ar 2 Gorffennaf 2025, yn unol â Rheol Sefydlog 22.9.

2. Yn cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad.

## 7 Dadl ar ddeiseb: P-06-1525 Diogelu cymeriad unigryw Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru

(30 munud)

**NDM8950** Carolyn Thomas (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r ddeiseb ['P-06-1525 Diogelu cymeriad unigryw Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru'] a gasglodd 14,016 o lofnodion.

## 8 Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Yr Economi Sylfaenol

(60 munud)

**NDM8951** Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar yr Economi Sylfaenol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Ebrill 2025, ac y gosodwyd ymateb iddo gan Lywodraeth Cymru ar 2 Gorffennaf 2025.

## 9 Dadl Plaid Cymru – Llywodraeth y DU

(60 munud)

**NDM8953** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn credu bod Llywodraeth Lafur y DU wedi gadael i lawr y rhai a'i rhoddodd mewn grym yn etholiad cyffredinol 2024, ac wedi methu cadw at yr addewidion a wnaed i bobl Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

Yn cydnabod bod Llywodraeth y DU, yn ystod y flwyddyn ers yr Etholiad Cyffredinol, wedi dechrau dadwneud y difrod a achoswyd gan 14 mlynedd o gyni drwy ddarparu rhagor o gyllid a sicrwydd ariannol tymor hwy i Gymru i'w galluogi i gynllunio ac i gefnogi ei phobl.

## 10 Cyfnod pleidleisio

## 11 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8948** Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

A ddylai Llywodraeth Cymru wahardd treillrwydo ar waelod y môr yng Nghymru?

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 15 Gorffennaf 2025